Dysgu'r 100 gair cyntaf – Syniadau Sut!

1) Ymarferwch 10 air neu llai ar y tro·
2) Dechreuwch gyda'r rhai nad yw eich plentyn yn gwybod yn barod.
3) Does dim rhaid eu dysgu yn ôl trefn y prawf. Yn wir, mae'n well peidio oherwydd y nod yn y pen draw yw bod y plant yn eu dysgu a'u defnyddio'n gywir yn eu gwaith bob dydd, nid eu cofio nhw dros dro ar gyfer y prawf yn unig.
4) Gallwch rhannu'r geiriau mewn nifer o ffyrdd gwahanol:



Gall chwilio am y patrymau fod yn rhan o'r dysgu.

5) Defnyddiwch hoff ddull dysgu eich plentyn neu gyfuniad o rhai gwahanol:
   i) Os ydynt yn dysgu orau drwy ddarllen, beth am wneud y dull 'darllen, gorchuddio, sillafu, gwirio', neu drwy ysgrifen enfys (sef, defnyddio nifer o liwiau i fynd dros yr un gair).
   ii) Mae dysgwyr cinesthetig yn dysgu'n well wrth symud, felly gallent wneud symudiad i gyd-fynd a phob llythyren e·e· robot neu ddawns hwla
   iii) Bydd eraill yn dysgu'n well wrth glywed, felly beth am 'spelling bee' Americanaidd: "wedi" , "w" - "e" - "d" - "i" , "wedi"